# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Ionawr 2024

Amser: 09.18 - 12.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13785

# Hybrid, Private

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Darren Millar AS<br>Sarah Murphy AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Jane Dodds AS |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Catherine Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Josh Hayman (Ymchwilydd)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Heledd Fychan AS. Dirprwyodd Llyr Gruffydd ar ei rhan. Datganodd Llyr Gruffydd AS ei fod wedi bod yn Aelod Dynodedig at ddibenion y Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Mai a mis Mehefin 2023 pan oedd yn Arweinydd Dros Dro Plaid Cymru, ond nad oedd wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau polisi ar gyfer Cytundeb Cydweithredu o ran

diwygio'r Senedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Croesawodd y Cadeirydd Jane Dodds AS, a oedd yn bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Ymateb gan Gomisiwn y Senedd ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r ddarpariaeth swyddfeydd etholaethol - 14 Rhagfyr 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.2 Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Athro Laura McAllister a Dr Vale Gomes yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref 2023

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth.

### 2.6 Ymateb gan gyn Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 19 Rhagfyr 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.4 Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Boundaries Scotland yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 9 Tachwedd 2023

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth.

### 2.5 Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch atodlen o welliannau ar y cyd ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - 11 Rhagfyr 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 3 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w cytuno drwy e-bost.

Cytunodd y Pwyllgor ar drefniadau ar gyfer cyhoeddi ei adroddiad.